Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Ysgewyll a Hadau (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **6 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Ysgewyll a Hadau (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019**

Bydd y Rheoliadau hyn yn cywiro'r diffygion yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n gosod y rheolau ar fewnforio, cynhyrchu a thrin hadau ar gyfer eu taenu (a elwir hefyd yn 'hadau gwasgaredig' neu 'ysgewyll' *(sprouts)*) i'w bwyta gan bobl. Bydd cyfraith yr UE yn sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn parhau i gael ei ddiogelu o ran y bwyd hyn.

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (UE) 208/2013 ar ofynion olrhain ar gyfer ysgewyll a hadau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ysgewyll
- Rheoliad (UE) 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu chwistrellau yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd
- Rheoliad (UE) 211/2013 ar ofynion ardystio ar gyfer mewnforio i'r Undeb ysgewyll a hadau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ysgewyll

**Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae'r OS ond yn gwneud mân gywiriadau technegol i gyfraith uniongyrchol yr UE ac yn cynnwys peidio â throsglwyddo unrhyw swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd. O ganlyniad, nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

**Diben y diwygiadau**
Bydd y Rheoliadau ond yn gwneud cywiriadau technegol megis cael gwared ar gyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill a bydd yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU'.  Fe fydd hefyd yn diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer labelu o 'iaith swyddogol yr UE' i 'yn Saesneg, neu yn Gymraeg a Saesneg'.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-sprouts-and-seeds-amendment-eu-exit-regulations-2019

**Pam rhoddwyd caniatâd**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.